EIDCymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Stocrestr Flynyddol o Ddefaid a Geifr – 1 Rhagfyr

- Bydd gohebiaeth ysgrifenedig yn cael ei hanfon at bob ceidwad cyn i'r stocrestr agor ar 1 Rhagfyr.
- Y ffordd gyflymaf i gwblhau eich stocrestr yw drwy eich cyfrif EIDCymru. Cysylltwch ag EIDCymru am gymorth i greu cyfrif.
- Bydd ceidwaid heb gyfrif yn cwblhau'r stocrestr drwy borth ar-lein EIDCymru. Manteisiwch ar y cymorth sydd ar gael i'ch helpu chi gyda hyn.
- Peidiwch ag oedi: Bydd ffenestr y stocrestr yn agor ar 1 Rhagfyr ac yn cau ar 31 Rhagfyr – rydym yn annog pob ceidwad i gwblhau ei stocrestr cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi oedi a allai ddigwydd yn ystod y tymor.

## Ble i gael cymorth i gwblhau eich stocrestr

**EIDCymru**

Gall **EIDCymru** eich helpu chi i gwblhau eich stocrestr.  Cysylltwch â nhw drwy ffonio **01970 636959** neu e-bostio **cymorth@eidcymru.org**

**Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm**

Gall **Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm** eich helpu chi i gwblhau eich stocrestr. Siaradwch â nhw mewn marchnadoedd da byw. I gael rhagor o fanylion, ewch i **www.llyw.cymru/gwasanaeth-cysylltwyr-fferm**.

**Cyswllt Ffermio**

Yn ystod hanner cyntaf mis Rhagfyr, bydd **Cyswllt Ffermio** yn cynnal sesiynau i'ch helpu chi i gwblhau eich stocrestr. Cysylltwch â'ch swyddog datblygu lleol: **llyw.cymru/cyswlltffermioswyddogion**

Oriau agor arferol EIDCymru yw dydd Llun i ddydd Gwener 9am–5pm

Dros y Nadolig, bydd oriau agor fel yr arfer ar wahân i: 24 Rhagfyr: 9am–12 canol dydd; 25 a 26 Rhagfyr: Ar Gau; 29 a 30 Rhagfyr 9am–5pm; 31 Rhagfyr: 9am–3pm; 1 Ionawr: Ar Gau

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53289
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg